# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

## COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg MAI 2026.

## <u>NEUADD GOFFA BODWROG.</u>

PRESENNOL:
Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, J E Lewis, R G Parry, W R Parry, D T Roberts, Mrs L Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 21ain EBRILL 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. Ms N Dafydd eilo Cyng. R R Roberts.

SWYDDOGION 2026 / 2027.
CADEIRYDDD.
Cyng. R G Parry. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. D T Roberts.
IS-GADEIRYDD.
Cyng. Mrs B Jones. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. Ms N Dafydd.
CYNRYCHIOLYDD / ION. AR FUDIADAU.
Cadeirydd neu Is-Gadeirydd.
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - Cyng. J E Lewis.
Un Llais Cymru - Pwyllgor Ardal Ynys Môn - Cyng. J E Lewis.

Croesawyd Cyng. R G Parry i`r gadair, (2026 / 27) a diolchwyd i Cyng. Mrs L Roberts am i gwaith rhagorol fel Cadeiryddes am (2025 / 2026) gan y Cynghorwyr a`r Clerc.

Llongyfarchiadau mawr i Rhun ap Iorwerth am gael ei ethol fel Prif Weinidog y Senedd yn Caerdydd. Mae yn Cynrychioli Bangor, Conwy a Môn. Anfon gair ymlaen iddo Cynnig Cyng. W R Parry, eilio Cyng. J Evans.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. LUE/2026/11. Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol yr annedd yn torri amodau cynllunio a osodwyd ar geisiadau rhif 14C55 a 14C55A/DA yn:-
Glan Rhos, Tynlon.
Oherwydd yr amser, nid oedd yn bosib i`r Cyngor rhoi unrhyw wybodaeth am y cais.

2. Deddf Briffyrdd 1980 Adran 119.
Cais i wyro Llwybr Cyhoeddus Rhif 26. Bodwrog.
Bryntwrog Isaf, Tynlon.
Er bod lle glwyb yn y gwyriad, nid oedd gwrthwynebiad.
Cynnig Cyng. Ms N Dafydd, eilio Cyng. Mrs L Roberts.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)
3. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith.
Yn galluogi aelodau'r Cyngor a'r Cyhoedd weld pae benderfyniadau allweddol mae'r pwyllgor yn debygol o wneud dros y misoedd nesaf. Gwybodaeth am y penderfyniadau pwy sydd yn gwneud y penderfyniadau a pwy yw'r Portffolio arweiniol ar gyfer pob item.
Y Cyngor yn dderbyniol o'r wybodaeth, gyda dim sylw pellach.

5. Uwch Beiriannydd - Adran Cynnal - B J Jones.
Cyflwyno Ardaloedd Torri math D (Ardaloedd Blodau Gwyllt) Newidiadau.
Bydd yr ardaloedd hyn yn cael torriad ddwywaith y flwyddyn. Un dechrau y tymor, un diwedd y tymor. Defnyddir peiriannau a blychau casglu glaswellt. Torriadau cyfartal ar ardaloedd glaswelltog. Rheoli a Manteision. Eu rheoli'n weithredol, ni ddylid eu hystyried yn rhai wedi'u hesgeuluso. Dull cefnogi bywyd gwyllt sydd yn gwella bioamrywiaeth. Manteision amgylcheddol tymor hir.
Priffyrdd gyda'r bwriad lle bo'n briodol, gynyddu ardaloedd Math D (blodau gwyllt) a lleihau ardaloedd Math B ystod cyfnod contract presennol. Y dull yn angenrheidiol er mwyn parhau bywyd gwyllt a gwella bioamrywiaeth. Gall preswylwyr sylwi newidiadau mewn edrychiad, a chodi ymholiadau. Ond gobeithi'r wrth esbonio manteision blodau gwyllt ynn cael ei werthfawrogi.
Y Cyngor yn derbyn gwybodaeth y Cyngor Sir. Nid oedd llawer o sylw, ond amser wnaith ddweud.

6. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
Y Cyngor yn derbyn a cefnogi gorchymyn clir ffordd a cyfyngiad cyflymder 20mya dros dro, ffordd Caergybi A5 Mona 18ed Mai hyd 31ain Mai 2026. (Eisteddfod Urdd Ynys Môn)

GOHEBIAETH (ARALL)
7. Un Llais Cymru - Wendi Patience.
Gweminar - Tim Bioamrywiaeth - Cyfres gweminar y 5 colofn gweithredu dros natur.
Creu a Gwarchod Cynefinoedd. Darparu Porthiant. Darparu Dwr. Creu Cysylltiadau. Lledaenwch y Neges. Y Cyngor yn derbyn heb sylw pellach na cais am Becynnau Bioamrywiaeth 2026 / 2027.

8. Neuadd Goffa Bodwrog.
Penderfyniad i gynyddu ychydig ar brisiau llogi'r Neuadd.
O Mai 1af 2026 bydd cyfarfodydd y Cyngor Cymdeithas yn £25 y mis.
Trafodwyd hyn gan y Cynghorwyr ac nid oedd cynyddu y pris yn broblemus.
Os yn gosod y Neuadd i wahanol Fudiadau efallai y buasai yn fwy teg i bawb dalu ar yr un graddfa.
Mae y Cyngor yna am ychydig mwy nac awr, ac byth yn defnyddio y gwres (Oherwydd pan maent wedi cnesu mae yn amser gadael)
Felly mae y Cyngor yn awyddus cael gwybod paham mae y Cyngor yn gorfod talu £25 a mudiadau eraill sydd yn defnyddio am gyfarfodydd yn talu £20. Egwyddor y peth.
Cynnig J Evans, eilio Cyng W R Parry. (Unfrydol)

9. Chwarae dros Gymru. Cylchgrawn. Cyng. Mrs B Jones bydd yn ei ddarllen.

10. MôN CF. Adolygiad Blynyddol. Ein heffaith 2024 - 2025. Copi wedi ei ddosbarthu i bob Cynghorydd. Y Cyngor y ddiolchgar a dymuno y gorau i'r dyfodol.

11. Cafwyd e-bost gan Mr Victor Hughes yn bryderus a'r chwyn yn y cafn blodau a'r glaswellt angen ei dorri yn gwaelod Bodffordd (Croeslon Llangwyllog) Mae y Cyngor yn chwilio am rhywun i edrych ar ol y cafn trwy ei chwynnu a rhoi blodau ynddo yn y tymor hir. Anodd iawn ydyw cael neb a diddordeb y tasg rhy fychan (Hefyd cafn ger Bronheulog) Mae y glaswellt yn gyfrifoldeb y Cyngor Sir i'w dorri. Ond gyda'r Bioamrywiaeth efallai bydd yn dod o dan math D ardaloeth blodau gwyllt. Y Clerc wedi egluro i Mr Hughes.
Y Clerc i gysylltu a Mr Elfed Fraser i edrych a fuasai diddordeb. Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. R R Roberts.

RHODDION.
12. Dim.

PLWYFOL.
13. Mae Coed yn gwaelod ac ochr y cae y Fynwent Gymunedol Bodffordd angen ei torri, maen't yn dechrau symud y wal. (Hefyd yr iddew) Cynnig Cyng. Mrs L Roberts eilio Cyng. W R Parry i symud ymlaen a cael pris. Y Clerc yn gweithredu.

14. Dywedodd Cyng. W R Parry nad oedd gan y tai ger y Sgwar Bodffordd lle i barcio yn y cefn. Ond un ty all wneud hyn. Rheswm ydyw fod yn Cyngor yn argymell cael llinellau melyn yma. Ar hyn o bryd ni ellir gwneud dim, bydd rhybydd yn cael ei rhoi cyn penderfyniad. Ceir ymateb amser hynnu. Cadw mewn golwg.

15. Bydd rhaid i'r Cyngor fod yn wiliadwrus a'r Lloches Bws ger Capel Sardis Bodffordd oherwydd bydd rhaid ei symud pan mae'r datblygiad yn cychwyn yn Haulfryn. Nid ellir rhoi lloches ai gefn at y wal oherwydd y tywydd. Mae rhaid rhoi y clochau dychryn allan.

16. R'oedd Cyng. Ms N Dafydd yn gofyn a oedd mynwent Capel Bryntwrog yn dal yn agored. Dywedwyd ei bod wedi cau ers amser am nad oedd lle yno i gladdedigaeth beddi o'r newydd.

17. Elfed Frazer fydd yn Cynnal a Chadw y Fynwnet Gymunedol am y tymor nesaf. Bydd y torriad eleni yn gweithio allan yn £1,785,00. Oherwydd fod y Cyngor wedi cael ei gadael i lawr gan y Contractwr diwethaf, r'oedd wedi tyfu yn wair. Mae y glaswellt yn cael i'w glirio o'r Fynwent. Unfrydol.

18. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Cafwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Nid oedd llawer i'w adrodd, ac wedi ei wneud oherwydd yr Etholiad.

MATERION ARIANNOL.
19. Cyfrif Rhedegol. £28,161.12. (Archeb 1. £5000.00.) Bedd cadw R C a M Jones £400.00)
Arian Mynwent Gymunedol Bodffordd <u>£11,346.63. rhan o'r uchod)</u>
TALIADAU:
20. Clerc £517.06. E Frazer (C a C Fynwent) £465.00.
Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. J E Lewis eilio Cyng. Mrs L Roberts.
**D Owen** (Clerc)